# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Hybrid - Zoom - Neuadd y Sir**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Gwener, 22 Gorffennaf 2022**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Chwefror ac ailalwyd ar 3 Mawrth, a 26 Mai 2022 fel cofnodion cywir.

(Tudalennau 1 - 88)

| 3. | DATGANIADAU O FUDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd gan Aelodau o ran eitemau sydd i'w trafod ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | ADRODDIAD HUNAN-ASESU BLYNYDDOL |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Powys Agored a Thryloyw.

(Tudalennau 97 - 244)

(Tudalennau 89 - 236)

| 8. | ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD – GWASANAETHAU CYMDEITHSOL 2022 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan Sian Cox, Aelod Cabinet ar gyfer Powys Ofalgar a'r Cynghorydd Sandra Davies a'r Cynghorydd Susan McNicholas, Aelodau Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

(Tudalennau 237 - 360)

| 9. | TROSGLWYDDIADAU REFENIW |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol.

(Tudalennau 361 - 362)

| 10. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2021-22 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

(Tudalennau 363 - 370)

| 11. | AELODAETH O BWYLLGORAU |
|---|---|

Nodi penodi aelodau ar bwyllgorau.

(Tudalennau 371 - 382)

| 12. | PENODI AELOD (LLEYG) ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

(Tudalennau 383 - 384)

| 13. | PENODI CYNGHORWYR I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

Ystyried gwneud penodiadau i'r cyrff allanol canlynol:

Ymddiriedolaeth Pritchard – 1 penodiad. Mae'r ymddiriedolaeth elusennol hon yn gysylltiedig â champws Ysgol Canol Cymru Llanfair-ym-Muallt.

Ymddiriedolaeth Evanst – 1 penodiad. Mae'r ymddiriedolaeth elusennol hon yn gysylltiedig â champws Ysgol Canol Cymru Llanfair-ym-Muallt.

The Reserve Forces' and Cadets' Association for Wales – 1 penodiad.

Bwrdd Canolfan Gelfyddydau Wyeside– 2 benodiad. Mae disgrifiad o'r rol wedi'i atodi.

(Tudalennau 385 - 386)

| 14. | CYNGOR TREF Y DRENEWYDD A LLANLLWCHAEARN |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

(Tudalennau 387 - 392)

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG – CAU YSGOLION |
|---|---|

Dechreuodd y rhaglen bresennol o gau ysgolion pan roedd gweinyddiaeth flaenorol y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn pŵer gyda Kirsty Williams fel Gweinidol Addysg. Ers hynny, mae awdurdodau lleol trwy Gymru gyfan wedi gwneud penderfyniadau i gau ysgolion cynradd. Mae'r tair ysgol ganlynol yn destun cau ym Mhowys:

Ysgol Gynradd Cradoc
Ysgol Gynradd Llanfihangel Rhydeithon
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr

Yn ystod y broses cau, aeth y cynigion i gau'r dair ysgol uchod trwy'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau, gan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Pete Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol.

Ar 8 Rhagfyr, cyfarfu'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau i ystyried cau Ysgol Gynradd Cradoc: 2021-12-08 Scrutiny Recs to Cabinet - Cradoc and Mount Street v2.pdf (moderngov.co.uk).
Ni wnaeth y Cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig gan gyflwyno sylwadau gyda phedwar argymhelliad ychwanegol.

Ar 22 Medi, cyfarfu'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau i ystyried cau Ysgol Gynradd Llanfihangel Rhydeithon: 2021-09-22 Scrutiny Recs to Cabinet - Llanfihangel Rhydithon.pdf (moderngov.co.uk).
Ni wnaeth y Cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig gan gyflwyno sylwadau i gynnwys y sylw canlynol "Roedd y Pwyllgor yn fodlon fod cyfiawnhad i fwyafrif y dadleuon a nodir yn y ddogfen, ar bob sail."

Ar 4 Tachwedd, cyfaru'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau i ystyried cau Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr; 2021-11-04 Scrutiny Recs to Cabinet - Llanbedr.pdf (moderngov.co.uk).
Ni wnaeth y Cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig gan gyflwyno sylwadau i gynnwys y sylw canlynol: "Nid yw'r grŵp craffu'n gwneud unrhyw argymhellion i'r cabinet."

Er gwaethaf y ffaith bod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau'n ymddangos yn fodlon gyda'r cynnig i gau tair ysgol gynradd, yn ystod ymgyrch etholiadau diweddaraf y cyngor sir, roedd ymgeiswyr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd erbyn hyn wedi ffurfio gweinyddiaeth newydd Cyngor Sir Powys, wedi ymgyrchu ac ymrwymo i wrthdroi'r penderfyniad i gau ysgolion cynradd ym Mhowys.

Ar 29 Ionawr 2022, 13 Chwefror 2022 ac 14 Mai 2022, ymunodd nifer o ymgeiswyr Democratiaid Rhyddfrydol, Cynghorwyr ac aelodau presennol y Cabinet â thrigolion Powys ar brotestiadau a diwrnodau ymgyrchu i ymladd y penderfyniad i gau'r ysgolion uchod. Ar 23 Ionawr 2022, ymunodd nifer o ymgeiswyr Llafur, Cynghorwyr ac aelod presennol o'r Cabinet â thrigolion Powys ar daith gerdded i ymladd y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Cradoc, Ysgol Fabanod Mount Street ac Ysgol Gynradd Mount Street. Yn ystod ymgyrch etholiadol y cyngor sir eleni, dywedodd ymgeiswyr Llafur a Democratiaid Rhyddfrydol trwy ddeunydd ymgyrchu, cyfryngau cymdeithasol a sgyrsiau wyneb yn wyneb, pe byddent yn cael eu hethol, ac yn rheoli'r awdurdod hwn, byddent yn rhoi diwedd ar gau'r ysgolion uchod. Ers cymryd rheolaeth dros yr awdurdod hwn ym mis Mai, mae'r weinyddiaeth newydd wedi methu gwireddu'r addewid hwn i drigolion Powys. Yn lle hynny, cyhoeddodd yr Arweinydd y byddai'r penderfyniad i gau Llanfihangel Rhydeithol a Llanbedr yn cael ei ohirio am flwyddyn galendr, gan gynnig gobaith ffug i rieni, athrawon a phlant, gan fod swyddogion y cyngor wedi cadarnhau y bydd y ddwy ysgol yn dal i gau.

Erbyn hyn mae'r Arweinydd ac aelodau newydd y Cabinet wedi cyhoeddi cynlluniau i fwrw ymlaen gyda'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Cradoc gan fynd yn erbyn pob addewid a wnaed i drigolion, athrawon, rhieni a phlant ym Mhowys.

**Felly mae'r cyngor yn galw ar weinyddiaeth newydd Cyngor Sir Powys i:**

Gadw Ysgol Gynradd Cradoc ar agor
Peidio cynnig cau Ysgol Gynradd Cradoc eto dros y bum mlynedd nesaf.

**Cynigiwyd gan:** Cyng Iain McIntosh

**Eiliwyd gan:** Cyng Karl Lewis

**Anghenion o ran adnoddau ac ymateb y Swyddog Adran 151.**

**Goblygiadau ariannol gwrthdroi'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Cradoc**

1. Mae'r tabl isod yn gosod rhagolwg pum mlynedd o'r amcanestyniadau diweddaraf o arbedion a ragwelir o gau Ysgol Gynradd Cradoc a'r holl waith cynnal a chadw fyddai ei angen i gadw'r ysgol ar agor.

2. Mae'r arbedion a ragwelir yn cael effaith gronnol ar y Cyngor o ryw £52,100 dros y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal, mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw wedi'i rannu'n waith hanfodol fyddai ei angen dros y ddwy flynedd nesaf sef £135,200 a gwaith arall fyddai ei angen dros y tair blynedd wedi hynny sef £594,500. Hefyd, yn Ysgol Gynradd Cradoc mae tair ystafell ddosbarth symudol a fydd yn dod i ddiwedd eu hoes dros y 2 – 3 blynedd nesaf. Os bydd Cradoc yn parhau i fod ar agor, bydd angen 3 ystafell ddosbarth symudol newydd i alluogi'r ysgol i barhau, a bydd y gost rhwng tua £180,00 a £400,000 yr un[1], sy'n cyfateb i bwysau cost ychwanegol o £540,000 o leiaf fyddai angen dod o hyd iddo. Byddai'n ddoeth cynnal arolwg o gyflwr yr ysgol gyfan cyn gwneud hyn er mwyn canfod y ffordd orau ymlaen.

3. Mae'r tabl dangos mai effaith ariannol y cynigion yn y cynnig hwn i fod dros £1.3m os na fydd Ysgol Gynradd Cradoc yn cau am o leiaf 5 mlynedd. Byddai angen sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith cynnal a chadw ychwanegol, gyda'r gostyngiad mewn arbedion yn golygu y byddai cyllidebau'n cael eu hailosod ar draws mwy o ysgolion. Ar hyn o bryd y bwriad yw defnyddio'r arian hwn i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg 2020-2030 i wella hawliau dysgwyr i bob dysgwr ar draws Powys, creu system addysg decach a darparu cyfleusterau sy'n addas i'r diben er budd pob disgybl, staff a'r gymuned ehangach.

| | **Arbedion na wireddwyd £ *** | | | | | **5 mlynedd o arbedion cronnol na wireddwyd** | **Gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd ei angen ar unwaith** | **Amcangyfrif o waith cynnal a chadw sy'n disgwyl ei wneud **** | **Ystafelloedd dosbarth newydd fyddai eu hangen***** | **Cyfanswm goblygiadau ariannol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **22-23** | **23-24** | **24-25** | **25-26** | **26-27** | | | | | |
| **Ysgol Gynradd Cradoc** **** | 0 | 2,000 | 0 | 15,700 | 12,700 | 52,100 | 135,200 | 594,500 | 540,000 | 1,321,800 |

* *Mae arbedion na wireddwyd yn cynnwys yr arian fformiwla fyddai nawr yn cael ei ddyrannu i'r ysgolion, cyllideb arlwyo fyddai nawr yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaeth arlwyo, fyddai'n llai oherwydd llai o gapasiti yn yr ysgol gynradd newydd sbon yn Aberhonddu.*

** *Mae'r ffigyrau gwaith cynnal a chadw sy'n disgwyl ei wneud yn gwaith gwaith i adeilad yr ysgol yn unig ac nid ardaloedd tu allan e.e. maes parcio, ffyrdd mynediad, lle chwarae, cwlferi, pontydd, grisiau, waliau cynnal, cerrig neu waliau ffin cerrig, ffensys a gatiau ac ati.*

*** *Ystafelloedd symudol newydd – amcangyfrif rhwng £180k a £400k yr un (cyfanswm: £540,000 - £1,200,000). Byddai angen ystyried a fyddai adeiladu estyniad yn fwy cost effeithiol.*

4. Bydd yr angen am 3 ystafell ddosbarth symudol ar safle Ysgol Gynradd Cradoc yn cyfateb i 30% o safle'r ysgol gyfan sy'n awgrymu nad yw adeilad presennol yr ysgol yn gallu ateb anghenion yr holl ddisgyblion.

5. Os bydd y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Cradoc yn cael ei wrthdroi, mae'n bosibl y bydd yn gostwng costau adeiladu ysgol newydd yn Aberhonddu gan fyddai angen llai o le. Dylid nodi hefyd bod ffigurau arbedion uchod Ysgol Gynradd Cradoc na wireddwyd <u>wedi gostwng</u> o ryw £36,370 y flwyddyn gan y tybir y byddai adeilad cynradd newydd Aberhonddu yn llai o faint, gan leihau'r safle atodol fyddai ei angen i'r ysgol newydd. Fodd bynnag, byddai angen llunio cynnig newydd i'w ystyried gan y Cabinet a chynnal ymgynghoriad pellach, a byddai angen clustnodi arian ar gyfer hyn.

6. Roedd disgwyl i'r newidiadau i'r fformiwla cyfnod cynradd a chau ysgolion ail-ddosbarthu arian o ysgolion bach i ysgolion cynradd mwy o faint ac i ysgolion cyfnod uwchradd. Bydd y cynnig hwn yn cyfyngu ar y gallu i symud arian yn ôl y bwriad gwreiddiol, a pharhau i dan-fuddsoddi yn ein hysgolion cynradd mwy o faint a'n hysgolion uwchradd.

---

[1] Yn dibynnu ar y manylion – mae prisiau ystafelloedd dosbarth symudol diweddaraf a brynwyd wedi tueddu i fod ar lefel uchaf y raddfa.

| 16. | RHYBUDD O GYNNIG – CYNLLUN GOSTWNG TRETH TANWYDD MEWN ARDALOEDD GWLEDIG. |
|---|---|

Yn anffodus mae diffyg seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu nad oes dewis gan nifer o drigolion Powys ar gyfer teithiau hanfodol, ac yn dibynnu ar ddefnyddio'r car. Ar 80%, Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car o'i gymharu ag ardaloedd Lloegr neu'r Alban.
Ar hyn o bryd nid yw ardaloedd gwledig Cymru'n derbyn cefnogaeth er ateb bron pob un o'r meini prawf. Rhaid ad-drefnu'r cynllun i ystyried mynediad at rwydweithiau trafnidiaeth cyhoeddus lleol yn ogystal â sicrwydd i gynnwys rhannau o Gymru yn y cynllun hwn. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor –

- yn cefnogi galwadau i gefn gwlad Cymru gael eu cynnwys yn y Cynllun Gostwng Treth Tanwydd mewn Ardaloedd Gwledig;
- yn pwyso ar Drysorlys ei Mawrhydi i ddiweddaru meini prawf y cynllun
- ac yn gofyn i Aelodau Seneddol Powys weithio gydag Aelodau Seneddol gwrthbleidiau Canolbarth Cymru i sicrhau un llais wrth bwyso'r achos yn San Steffan.

Cynigiwyd gan: Cyng Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan: Cyng Bryn Davies

**Gofynion o ran adnoddau**
Mae'r cynnig yn gofyn i'r cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU am y rhwydweithiau trafnidiaeth yn ardaloedd gwledig. Ychydig iawn o effaith ariannol sydd i'r cynnig hwn heblaw am amser swyddogion wrth ddrafftio llythyron sy'n mynd i'r afael â'r pwnc hwn. Daw'r costau hyn o gyllidebau presennol.

| 17. | RHYBUDD O GYNNIG - DYDD GŴYL DEWI |
|---|---|

A) Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet gydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn swyddogol trwy roi diwrnod o wyliau i'w weithlu er mwyn dathlu dydd ein Nawdd Sant ar 1 Mawrth 2023 a bob blwyddyn wedi hynny.
B) Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli'r pŵer i Lywodraeth Cymru greu gwyliau banc i Gymru (trwy Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971) – fel sydd eisoes yn digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cynigiwyd gan: Cyng Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan: Cyng Bryn Davies

**Gofynion o ran adnoddau**
A)
Byddai effaith go iawn gŵyl banc ychwanegol yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant. Er enghraifft, roedd y gŵyl banc diweddar i ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines ar ddydd Gwener 3 Mehefin 2022 wedi golygu fod hawl gan bob aelod staff i wyliau a derbyn cyflog diwrnod arferol ar y gŵyl banc ychwanegol. Serch hynny, roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau, gyda gweithwyr fu'n gweithio'r diwrnod hwnnw â hawl i daliadau uwch neu ddiwrnod i ffwrdd yn lle. Gan gymryd hwn fel enghraifft, gallwn ddarparu'r canlynol:-

Mae costau staff ar gyfer y gŵyl banc ychwanegol ar 3 Mehefin 2022 fel syrthio i ddwy elfen:

1. Amser anghynhyrchiol lle roedd y staff ar wyliau ar 3 Mehefin neu ar ddiwrnod arall nes ymlaen.
2. Talu cyflog uwch i staff fu'n gweithio'r diwrnod hwnnw.

Y ffordd gyflymaf i gyfrifo costau staffio ar gyfer diwrnod o amser anghynhyrchiol, yn seiliedig ar 1/260 o fil cyflogau'r Cyngor, yw tua £700k, ond i gael y ffigwr go iawn o edrych ar batrymau gwaith, byddai'n cymryd llawer o amser i gyfrifo hyn yn fwy cywir.

I'r rhai hynny fu'n gweithio ar 3 Mehefin 2022, mae rhai wedi cyflwyno hawliadau amser ar gyfer cyflogres Mehefin 2022 a'r cyfanswm yw £6k gan gynnwys costau. Ond mae staff yn tueddu i hawlio mis yn hwyrach, felly mae'n debyg y bydd mwy o hawliadau, ond yn annebygol o fod yn berthnasol iawn.

Yn ogystal, mae staff gofal yn ein tenantiaethau â chymorth, gofal cartref a chartrefi plant â hawl i gyflog uwch ar y diwrnod hwnnw.  Amcangyfrif o gostau ychwanegol hynny yw £72k.

Mae hefyd yn werth nodi  fod gŵyl banc y Jiwbilî wedi digwydd yn ystod hanner tymor ysgolion a'r diwrnod yn lle hynny i staff ysgolion yw dydd Llun 18 Gorffennaf 2022 (mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o amser anghynhyrchiol).

Fodd bynnag, i nifer o staff cyflogedig, byddai unrhyw waith na wnaed y diwrnod hwnnw yn cael ei wneud wrth iddynt ddychwelyd, a'i reoli o fewn eu gwaith arferol a'u trefniadau gweithio'n hyblyg dros yr wythnosau canlynol.  Felly yn y rhan fwyaf o achosion ni fyddai yna faich ariannol ychwanegol, er colli'r oriau gwaith.  Efallai y byddai rhai costau'n cael eu harbed o gael diwrnod ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith e.e. costau cyfleustodau, a fyddai angen eu hystyried.

B)
Prin iawn fydd yr effaith ar adnoddau o ran y cais i ysgrifennu at Lywodraeth DU i ddatganoli pŵer i greu gwyliau banc, a gellir ei wneud o fewn cyllidebau presennol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n creu gŵyl banc ychwanegol, byddai nifer o ddarparwyr allanol sy'n gofyn i staff weithio, yn trosglwyddo'r costau ychwanegol ymlaen i'r Cyngor.  Y prif wasanaethau dan sylw fyddai gofal cymdeithasol ac addysg.  Byddai hyn yn golygu costau sylweddol i'r Cyngor.

| 18. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos fud tua 19% o boblogaeth Powys yn hollol ddwyieithog h.y. Cymraeg a Saesneg.

Eto ym mis Mawrth 2022 fe wnaeth y Comisiynydd Iaith adolygu arolwg cwsmer o 4 wythnos yn dangos o 17 o alwadau i Bowys, dim ond 1 ddywedodd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac o'r 15 o alwadau a atebwyd gan staff, dim ond 3 oedd yn gallu ateb anghenion y galwr yn rhugl yn Gymraeg.
Hefyd, mae data cyflogaeth yn dangos mai dim ond 7.59% o staff Powys sy'n hollol ddwyieithog yn 2021-22 gyda'r adrannau tai a datblygu cymunedol mor isel â 5.04%

Eto, rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, o'r 1,271 o swyddi a hysbysebwyd, dim ond 64, neu 5% oedd yn galw am yr angen i fod yn hollol ddwyieithog.

O ystyried y ffaith nad yw'r awdurdod yn adlewyrchu ein cymdeithas, heb sôn am ateb ei rwymedigaethau cyfreithiol, ac felly'n galw am archwiliad radical o'r sefyllfa, beth yw eich cynigion i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd hwn?

(Tudalennau 393 - 394)